WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o gyflawni Rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1366A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/sydd i'w gyflawni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, na staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall fel unigolion, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Lisa Williams a Ron Price dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Gallwn weld rhai elfennau positif yn y ffordd y mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl (PRIF), ond mae gofyn gwneud gwaith pellach i sefydlu'r pum ffordd o weithio'n gyson.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl 6

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi ystyried dyheadau a data hirdymor ar gyfer y dref er mwyn cael gafael ar gyllid yn llwyddiannus ond byddai'n elwa o lunio gweledigaeth hirdymor a chyfannol ar gyfer y dref 6

Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam er mwyn atal dirywiad pellach yn y dref fel cyrchfan i dwristiaid. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddealltwriaeth o wraidd y dirywiad hwn 7

Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam er mwyn integreiddio cynlluniau â phartneriaid i gael gafael ar gyllid yr UE, ond byddai cael gweledigaeth gliriach ar gyfer y dref yn hwyluso dull gweithredu mwy integredig â'r partneriaid 8

Mae'r Cyngor wedi ystyried sut i gydweithredu â'r partneriaid i gyflawni'r prosiectau PRIF. Fodd bynnag, dylai geisio cydweithredu mewn ffordd fwy strategol 9

Prin yw'r cyfranogiad a'r mewnbwn ffurfiol i sicrhau bod y rhanddeiliaid yn eu llawn amrywiaeth yn cael eu cynrychioli 11

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam wnaethom gynnal yr Archwiliad

1 Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), un o'r gofynion statudol yw bod Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

a. wrth bennu eu hamcanion llesiant; a

b. wrth gymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain'.

3 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad, 'Myfyrio ar Flwyddyn Un - Sut mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid sut maent yn gweithio.

4 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, ymgysylltom ag amrywiol randdeiliaid gan gynnwys drwy ein gwaith peilot yn ystod 2017-18. Fe wnaethom hefyd weithio'n agos â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

5 Gan fod y gwaith rhagbaratoi ym mlwyddyn un yn cynnwys rhoi ystyriaeth i sut roedd cyrff cyhoeddus wedi gosod eu Hamcanion Llesiant, prif ffocws y gwaith hwn yw'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

6 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad Cynulliad. Rhaid i'r adroddiad cyntaf o'i fath gael ei gyhoeddi erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 corff y mae'r Ddeddf yn eu cwmpasu i fwydo i'w adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

8 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2019.

9 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein canfyddiadau yn dilyn ein gwaith yn archwilio 'Rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl (PRIF)', sy'n un cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant. Mae hefyd yn cynnwys ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Beth wnaethom ei archwilio

10 Fe wnaethom archwilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth Gyflawni Rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl. Nod y rhaglen hon yw cynyddu gwerth twristiaeth yn yr economi, cynyddu'r cyfleoedd i fusnesau a'r cyfleoedd i gael cyflogaeth a chynorthwyo amrywiol ddigwyddiadau diwylliannol, chwaraeon a busnes. Fe'i lleolir dan flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, sef 'Cefnogi economi lwyddiannus' a 'Defnyddio adnoddau'n ddoethach'.

11 Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy rhaid i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i'r 'ffyrdd o weithio' canlynol:

### Arddangosyn 1: Y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r 'pum ffordd o weithio' fel y'u diffinnir yn nogfen **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru Yr Hanfodion**[1].

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithredu**<br>Gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) gan helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â budd mewn cyrraedd y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu'r ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu yn ei holl amrywiaeth. |

12 Canfu ein harchwiliad: Y gallwn weld rhai elfennau positif yn y ffordd y mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni rhaglen Ffocws Buddsoddi Tref Porthcawl (PRIF), ond fod gofyn gwneud gwaith pellach i sefydlu'r pum ffordd o weithio'n gyson.

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, 2015.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae'r Cyngor wedi ystyried dyheadau a data hirdymor ar gyfer y dref er mwyn cael gafael ar gyllid yn llwyddiannus ond byddai'n elwa o lunio gweledigaeth hirdymor a chyfannol ar gyfer y dref

#### Beth wnaethom edrych amdano

13 Edrychom am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros gyfnod priodol;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau manteision hirdymor; a
- threfniadau priodol ar gyfer monitro ac adolygu.

14 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer yr 'hirdymor' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Beth wnaethom ei ganfod

15 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn hwyluso'r gwaith o gyflenwi drwy'r PRIF brosiectau tymor byr sydd â'r potensial i gefnogi dyheadau hirdymor ar gyfer Porthcawl;
- Mae'r prosiect PRIF yn cyd-fynd â'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd (EPF) i ddatblygu cyrchfannau allweddol ar gyfer twristiaeth hygyrch ac atyniadol;
- Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Cyrchfannau (2018-2020) sy'n datgan mai nod y Cyngor ar gyfer y fwrdeistref sirol yw 'Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n dathlu cryfderau unigryw'r lle, yn cefnogi swyddi, yn creu cyfleoedd busnes ac yn gwella ystod o amwynderau sydd ar gael i ymwelwyr a phobl leol';
- Bu swyddogion o'r Cyngor yn gweithio â Grŵp Rheoli Cyrchfannau (DMG) Llywodraeth Cymru i sefydlu dyfodol Porthcawl fel 'Cyrchfan Ddenu' er mwyn cael cyllid hirdymor mewn sefyllfa gystadleuol;
- astudiaethau ymarferoldeb hirdymor wedi'u hategu gan ymgynghoriaeth a mewnbwn allanol;

[2] Gweler Atodiad 1

- defnyddiwyd data i ategu elfennau cynaliadwyedd hirdymor y cam;
- mae'r Cyngor wedi ystyried ac ail-broffilio'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen adfywio ym Mhorthcawl; ac
- mae gan y Cyngor Gynllun Trafnidiaeth Lleol (2015-2030). Mae hwn yn cynnwys dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer Porthcawl.

16 Gwelsom y meysydd canlynol y gellir eu gwella:

- Er bod gan y Cyngor Gynllun Rheoli Cyrchfannau ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan, teimlem fod lle i ddatblygu gweledigaeth gliriach ar gyfer Porthcawl.
- Mae lle i ystyried ymhellach atebion hirdymor ar gyfer trafnidiaeth.

## Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam er mwyn atal dirywiad pellach yn y dref fel cyrchfan i dwristiaid. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddealltwriaeth o wraidd y dirywiad hwn

### Beth wnaethom edrych amdano

17 Edrychom am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau sydd wedi eu dyrannu i sicrhau bod manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- threfniadau monitro ac adolygu i weld pa mor effeithiol yw'r cam am atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

18 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'atal' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Beth wnaethom ei ganfod

19 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cydnabod bod addasu i'r newidiadau yn y farchnad dwristiaeth i atal dirywiad pellach mewn ffyniant yn allweddol i ddyfodol Porthcawl; ac
- mae'r Cyngor wedi gweld y risg o erydu arfordirol posibl ac mae'n cydnabod bod angen iddynt weithio â phartneriaid i gael gafael ar gyllid ychwanegol i ategu gwelliannau amgylcheddol i atal erydu arfordirol.

20 Gwelsom y meysydd canlynol y gellir eu gwella:

- mae mwy o waith yn ofynnol i ddeall gwraidd y dirywiad mewn twristiaeth;

[3] Gweler Atodiad 1

- diffyg eglurder ynglŷn â sut bydd PRIF yn helpu'r heriau cymdeithasol-economaidd ym Mhorthcawl – e.e. diweithdra, lefelau amddifadedd; ac
- mae lle i ddatgan sut caiff effeithiolrwydd y PRIF ei fesur, yn enwedig o safbwynt llwyddiant y gweithgaredd ataliol.

## Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam er mwyn integreiddio cynlluniau â phartneriaid i gael gafael ar gyllid yr UE, ond byddai cael gweledigaeth gliriach ar gyfer y dref yn hwyluso dull gweithredu mwy integredig â'r partneriaid.

### Beth wnaethom edrych amdano

21 Edrychom am dystiolaeth o roi ystyriaeth i:

- sut gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y Cyngor a'i flaenoriaethau ehangach; a
- sut bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

22 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'integreiddio' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Beth wnaethom ei ganfod

23 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Fframwaith polisi cenedlaethol sy'n cydnabod y problemau hirdymor a geir mewn trefi glan y môr ar draws Cymru; a
- mae gofynion cyllid yr Undeb Ewropeaidd, sydd â meini prawf tebyg iawn i'r rheini a geir yn Neddf LlCD wedi arwain at broses ymgeisio integredig sy'n gofyn am drefniadau tebyg i Ddeddf LlCD heb orfod cyfeirio at y pum ffordd o weithio'n benodol ym mhob elfen.

24 Gwelsom y meysydd canlynol y gellir eu gwella:

- mae rôl a dylanwad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn dal i ddatblygu ac o'r herwydd ychydig o dystiolaeth a geir bod integreiddio ar lefel strategol wedi helpu i ddylunio a chyflawni'r PRIF;
- fel rydym wedi'i grybwyll ym mharagraff 17, mae lle i sefydlu gweledigaeth gliriach ar gyfer y dref. Byddai hyn wedyn yn hwyluso dull gweithredu mwy integredig â'r partneriaid;

[4] Gweler Atodiad 1

- tystiolaeth gyfyngedig a geir o ba mor glir y gall y PRIF gyfrannu at Nodau Llesiant lleol a chenedlaethol; a
- bydd angen mewnbwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gryfhau'r amddiffynfeydd rhag erydu arfordirol er mwyn datblygu ardaloedd Sand Bay a Salt Lake.

## Mae'r Cyngor wedi ystyried sut i gydweithredu â'r partneriaid i gyflawni'r prosiectau PRIF. Fodd bynnag, dylai geisio cydweithredu mewn ffordd fwy strategol

### Beth wnaethom edrych amdano

25 Edrychom am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut gallai weithio ag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun);
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu i weld a yw cydweithredu yn ei helpu ef neu ei randdeiliaid i gyflawni'r amcanion llesiant.

26 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'cydweithredu' y gwnaethom eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Beth wnaethom ei ganfod

27 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- mae perthnasoedd gwaith effeithiol a chadarn i'w cael â'r Cwmni Budd Cymunedol ac yn awr yr elusen Credu sydd wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd dysgu, cyfleoedd addysgol a chyflogaeth ar gyfer y gymuned gyfan, gan warchod a datblygu ar yr un pryd ardaloedd hamdden ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol';
- trefniadau llywodraethu sefydledig ym Mwrdd Rhaglen Porthcawl a mewnbwn gan Gyngor Tref Porthcawl;
- cydweithredu positif â Croeso Cymru i nodi statws y dref fel cyrchfan ddenu a cheisiadau llwyddiannus am gyllid; ac
- mae PRIF yn elwa o elfennau dylunio cyffredin ynghyd ag o ffocws ar agweddau gweledol ar ddatblygiadau.

28 Gwelsom y meysydd canlynol y gellir eu gwella:

[5] Gweler Atodiad 1

- ychydig o gyfathrebu a fu ynglŷn ag ‘uwchgynllun’ i alluogi rhanddeiliaid i ddeall sut mae prosiectau unigol yn ffitio i weledigaeth ehangach ar gyfer dyfodol y dref; a
- chyfyngedig yw’r canlyniadau cydweithredol a ganfuom i wella’r trefniadau trafnidiaeth i ddelio â llifau traffig ar adegau prysur a lliniaru effaith cynnydd mewn traffig ffordd.

## Prin yw’r cyfranogiad a’r mewnbwn ffurfiol i sicrhau bod y rhanddeiliaid yn eu llawn amrywiaeth yn cael eu cynyrchioli

### Beth wnaethom edrych amdano

29 Edrychom am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys i ddylunio a chyflawni’r cam;
- wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol i ddylunio a chyflawni’r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau’r gwaith o gynnwys rhanddeiliaid i siapio’r broses o ddatblygu a chyflawni’r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gynnwys rhanddeiliaid.

### Beth wnaethom ei ganfod

30 Gwelsom y cryfderau canlynol:

- cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng mis Ionawr 2015 a mis Hydref 2015 ar elfennau penodol o’r prosiect PRIF. Cynhaliwyd ymgynghoriadau dilynol drwy brosesau cynllunio ffurfiol, a drwy wneud adroddiadau;
- ymgysylltiad â rhai grwpiau cymunedol a grwpiau diddordeb penodol i annog twristiaeth (ee syrffwyr);
- defnyddiwyd arddangosiadau cymunedol i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg y trigolion; a
- chynhaliwyd cyfarfodydd briffio gan y cabinet a’r aelodau lleol er mwyn i’r trigolion gael bod yn rhan o’r broses.

31 Gwelsom y meysydd canlynol y gellir eu gwella:

- mae’n llai clir sut mae trigolion ac ymwelwyr yn rhan o’r broses o roi mewnbwn i’r PRIF mewn ffordd glir a strwythuredig;
- y tu hwnt i’r peirianweithiau ymgynghori safonol, cyfyngedig fu cyfranogiad dinasyddion;
- mae’r broses o gynnwys pobl i’w gweld fel un ad hoc a manteisgar yn hytrach nag yn un strategol; a
- lle i sicrhau bod y Cyngor yn cynnwys pob rhan o’r gymdeithas, a’r rheini y mae’r Ddeddf yn effeithio arnynt yn eu holl amrywiaeth, mewn ffordd fwy ffurfiol a strwythuredig.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

32 Ar ôl cwblhau ein gwaith maes, cyflwynom ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Mai 2019. Yn bresennol yn y gweithdy roedd swyddogion o'r adran adfywio strategol ac uwch swyddogion gweithredol. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ar ein canfyddiadau mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

Arddangosyn 2: Ymateb y Cyngor

| Maes Datblygu | Ymateb/Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor** | | | |
| Er bod gan y Cyngor Gynllun Rheoli Cyrchfannau ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan, teimlem fod lle i ddatblygu gweledigaeth gliriach ar gyfer Porthcawl. | Mae adolygiad o'r Uwchgynllun ar gyfer Porthcawl yn awr yn mynd rhagddo. Croesewir yr archwiliad hwn a chaiff ei ganfyddiadau eu hintegreiddio yn y broses honno. | Adfywio Strategol | 2020 |
| Mae lle i ystyried atebion hirdymor ar gyfer trafnidiaeth. | Bydd y Cyngor yn mynd ati i ystyried atebion trafnidiaeth hirdymor drwy ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Strategol a drwy'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. | Cynllunio a Thrafnidiaeth | 2022 |
| **Integreiddio** | | | |
| Mae rôl a dylanwad y BGC yn dal i ddatblygu – prin yw'r dystiolaeth bod integreiddio ar lefel uwch wedi helpu i ddylunio na chyflawni'r PRIF. | Gyda'i bartneriaid ar y BGC mae'r Cyngor yn croesawu'r cyfleoedd i ddysgu'r arferion gorau gan BGCau eraill, arferion y gellir eu rhannu a bydd yn bwydo'r rhain drwy ei brosesau adolygu. | Cynllunio Corfforaethol | Yn barhaus |
| Tystiolaeth gyfyngedig a geir o ba mor glir y gall y PRIF gyfrannu at Nodau Llesiant lleol a chenedlaethol. | Bydd y Cyngor yn adolygu'n rheolaidd sut i integreiddio Nodau Llesiant lleol a chenedlaethol mor gynnar â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau. | Cynllunio Corfforaethol | Yn barhaus |
| Bydd angen mewnbwn gan CNC i gryfhau'r amddiffynfeydd rhag erydu arfordirol er mwyn datblygu ardaloedd Sand Bay a Salt Lake. | Bydd y Cyngor yn dal i adeiladu ar y berthynas waith agos sydd ganddo eisoes â CNC ar bob maes gwaith sy'n ymwneud ag erydu arfordirol. | Erydu Arfordirol | Yn barhaus |

| Maes Datblygu | Ymateb/Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Cynnwys** | | | |
| Mae'n llai clir sut cafodd dinasyddion eu cynnwys i roi mewnbwn i'r PRIF mewn ffordd glir a strwythuredig. | Cyflwynir canfyddiadau'r archwiliad i dîm ymgysylltu'r Cyngor ac i Gydlynydd y BGC er mwyn ystyried ffyrdd y gall y Cyngor gyfleu'n well ei amrywiaeth eang o ddulliau o gynnwys dinasyddion yn ei brosesau gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw gyfleoedd i ddysgu oddi wrth yr arferion gorau mewn ardaloedd eraill. | Ymgysylltu<br>Cydlynydd y BGC | |
| Y tu hwnt i'r peirianweithiau ymgynghori safonol, cyfyngedig fu cyfranogiad dinasyddion. | | | |
| Mae'r broses o gynnwys pobl i'w gweld fel un ad hoc a manteisgar yn hytrach nag yn un strategol. | | | |
| **Cydweithredu** | | | |
| Ychydig o gyfathrebu a fu ynglŷn ag 'uwchgynllun' i alluogi rhanddeiliaid i ddeall sut mae prosiectau unigol yn ffitio i weledigaeth ehangach ar gyfer dyfodol y Dref. | Mae adolygiad o'r Uwchgynllun ar gyfer Porthcawl yn mynd rhagddo a chaiff canfyddiadau'r archwiliad hwn eu hintegreiddio. | Adfywio Strategol | 2020 |
| Cyfyngedig yw'r canlyniadau cydweithredol a ganfuom i wella'r trefniadau trafnidiaeth i ddelio â llifau traffig ar adegau prysur a lliniaru effaith cynnydd mewn traffig ffordd. | Caiff atebion trafnidiaeth hirdymor eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Strategol a drwy'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. | Cynllunio a Thrafnidiaeth | 2022 |
| **Atal** | | | |
| Mae mwy o waith yn ofynnol i ddeall gwraidd y dirywiad mewn twristiaeth. | Caiff y cyfle i gyflawni'r maes gwaith hwn ei archwilio â Croeso Cymru ar lefel Cymru gyfan. | Rheoli Cyrchfannau | 2019 |
| Diffyg eglurder ynglŷn â sut bydd PRIF yn helpu'r heriau cymdeithasol-economaidd ym Mhorthcawl – e.e. diweithdra, lefelau amddifadedd. | Nod gwerthuso'r PRIF fydd datgan yn glir sut mae'r peirianweithiau ar gyfer cefnogi heriau cymdeithasol-economaidd a'r targedau ar gyfer prosiect PRIF a amlinellwyd yn y cynllun busnes, y cais am gyllid a gymeradwywyd gan y corff cyllido wedi cael eu cyflawni. | Rheoli Cyrchfannau | 2021 |
| Prin yw'r targedau a osodwyd i ddangos pa mor effeithiol fydd y PRIF i fesur pa mor effeithiol yw llwyddiant y gweithgaredd ataliol. | | | |

33 Byddwn yn dal i fonitro hynt y Cyngor wrth iddo weithredu'r camau hyn, ac i ba raddau y mae'n rhoi sylw i'r materion a welsom yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 1: Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn gosod 'dangosyddion positif' ar gyfer y pum ffordd o weithio a nodwyd gennym. Nid ydym wedi defnyddio'r dangosyddion fel rhestr gyfeirio. Dylid eu hadolygu fel dangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| Beth a fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd o weithio hirdymor? |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir o'r hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision tymor byr neu dymor canolig, ac mae cydbwysedd i'w gael rhwng y manteision hynny a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam ar sail dealltwriaeth soffistigedig o'r angen a'r pwysau yn awr ac i'r dyfodol, ac mae hynny'n cynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O'r herwydd, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau a'r cyfleoedd a geir yn awr ac i'r dyfodol.<br>• Cafodd adnoddau eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision tymor byr yn cael eu cyflenwi.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni canlyniadau, gyda chamau cynnydd/cerrig milltir wedi'u nodi os caiff y canlyniadau eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i wneud pethau mewn ffyrdd newydd a allai eu helpu i gael manteision dros y tymor hwy.<br>• Maent yn gwerthfawrogi deallusrwydd ac yn defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd o weithio ataliol?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall gwraidd problemau er mwyn gallu mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n ymwneud â phontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau ar draws y system gyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu cyflenwi i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau ar gyfer camau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau ac at ddefnyddio adnoddau'n well dros y tymor hwy, hyd yn oed os gallai hyn gyfyngu ar y gallu i fodloni anghenion tymor byr.<br>• Ceir trefniadau atebolrwydd a gwneud penderfyniadau sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyngiadau tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau er mwyn sicrhau'r gwelliannau disgwyliedig yn y canlyniadau a'r ffordd y defnyddir adnoddau. |

| Beth a fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu mewn ffordd 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall beth mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac fe ânt ati i chwilio am gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei ailadrodd yn eu gwaith â chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau ar draws y sefydliad ar gyfer cyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle caiff gwybodaeth ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sefydledig o sut mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff sector cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf ar draws y nodau llesiant ac yn lleihau'r effeithiau negyddol.<br>• Mae'r drefn lywodraethu, y strwythurau a'r prosesau'n ategu hyn, felly hefyd yr ymddygiadau. |
| **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?** |
| • Canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau a wna'r corff yn hytrach nag ar ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, ac mae hyn yn helpu i ysgogi gweithgaredd cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd positif ac aeddfed â'i randdeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall pob partner eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu cyd-brosesau a ffyrdd o weithio ar y cyd, lle bo hynny'n briodol. |
| **Beth a fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy sydd angen cael ei gynnwys a pham.<br>• Yn myfyrio i ba raddau ar hyn o bryd y deallir yr anghenion a'r heriau y mae'r bobl hynny yn eu hwynebu.<br>• Yn gweithio'n gydgynhyrchiol, gan weithio â rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Yn ystyried bod safbwyntiau rhanddeiliaid yn ffynonellau gwybodaeth holl bwysig a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.<br>• Yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn eu llawn amrywiaeth yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Wedi meithrin perthnasoedd positif ac aeddfed â'i randdeiliaid, lle ceir dialog parhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Yn ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol ac mae'r adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru